

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol  
Sefydlog ar Addysg Grefyddol  
(CYSAG)

Dyddiad: 4 Mehefin 2013

Deialu Union: 01824 712568

e-bost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Syr / Fadam

Fe’ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) am 10.00 am, DYDD LLUN, 10 MEHEFIN 2013 yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL LL18 3DP.

Yn gywir

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

## MYFYRIO TAWEL

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLTIAD

Dylai aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnus ag unrhyw fusnes y bwriedir ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, ei hystyried yn y cyfarfod fel mater brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2013 (copi wedi ei amgáu) ac i ystyried materion yn codi.

**5 DARPARIAETH YMCD YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH** (Tudalennau 13 - 14)

Derbyn cyflwyniad gan Toni Coulton ar ddarpariaeth YMCD yn y sector addysg bellach a thrafod sut gal CYSAG gefnogi Chweched Dosbarth a Choleg Addysg Bellach y Rhyl.

**6 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (copi wedi ei amgáu) sy'n dadansoddi canlyniadau arolygon a gynhaliwyd mewn pum ysgol rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Ionawr 2013.

**7 CYSTADLEUAETH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD AG** (Tudalennau 21 - 22)

Derbyn diweddariad llafar gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ar gystadleuaeth Llythrennedd a Rhifedd AG.

**8 TAITH NODDEDIG Y CYNGOR ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 23 - 24)

Derbyn adroddiad llafar gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ar Daith Noddedig y Cyngor Addysg Grefyddol.

**9 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)** (Tudalennau 25 - 40)

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2013 yng Nghasnewydd (copi wedi ei amgáu), a
- Penderfynu pwy fydd yn mynchu cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 19 Mehefin 2013 yng Nghaernarfon a thrafod enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol (copi yn amgaeedig).

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Bydd y cyfarfod nesaf am 10.00 a.m. dydd Mercher, 2 Hydref 2013 yn Siambrau y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2 – DIM EITEMAU**

## **AELODAETH**

### **Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Bill Tasker  
Carys Guy  
Julian Thompson-Hill  
Dewi Owens

Margaret McCarroll  
Arwel Roberts  
Joe Welch

### **Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Dominic Oakes  
Y Parch. B H Jones  
Y Parch. Martin Evans-Jones  
Mary Ludenbach

Mrs C Thomas  
Mrs E Wright  
S Harris  
Is-Gapten Sian Radford

### **Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Ms M Bradshaw  
Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

### **Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

Mr G Craigen

### **COPÍAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth  
Y Wasg a Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, FFORDD LLYS NANT, PRESTATYN , Dydd Gwener, 1 Chwefror 2013 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

#### **Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Margaret Carroll, Arwel Roberts a/ac Joe Welch

#### **Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Dominic Oakes, Y Parch. B H Jones, Y Parch. Martin Evans-Jones, Mrs E Wright a/ac S Harris

#### **Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion Rhanbarthol a Gwasanaethau Gwella (EYRGG) (ED), Uwch Ymgynghorydd Dysgu (PL) a Chlerc CYSAG

## YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd Dewi Owens, Mrs Cate Harmsworth, Mrs Maureen Phillips, Mr G Craigen a/ac Y Cynghorydd Alice Jones

---

Cytunodd y Parchedig Martin Evans-Jones (Is-Gadeirydd) i fod yn Gadeirydd gan nad oedd Maxine Bradshaw yn gallu bod yn bresennol.

## MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrddod tawel.

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na rhagfarnllyd gan unrhyw un.

### **3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol (SLA:RE) y Pwyllgor am daith gerdded noddedig oedd wedi'i threfnu, llythyr/e-bost oedd eisoes wedi'i gylchredeg. Diben y daith gerdded oedd uno'r rhai oedd â diddordeb mewn Addysg Grefyddol yn siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r daith yn un o nifer sy'n cael eu trefnu ledled Cymru a Lloegr er mwyn hyrwyddo 40 mlynedd o Gyngor Addysg Grefyddol (CAG).

Trefnwyd y daith gerdded ar gyfer Dydd Sadwrn 11 Mai, gan gyfarfod am 9:30am er mwyn dechrau'r daith am 10:00am ym maes parcio'r Britannia Inn, Llangollen. Y cynllun oedd ymweld â safleoedd Abaty Glyn y Groes, Croes Elisedd ac Eglwys Llantysilio.

Er mwyn denu cymaint o gyfranogwyr â phosibl, rhannwyd y daith yn ddwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn daith 2 filltir hamddenol o'r Britannia Inn i'r Gamlas, gan ddychwelyd ar yr un llwybr neu drwy goetir o friallen a bwtsias y gog. Wedi cyrraedd y Gamlas, ar gyfer y rhai sy'n dymuno cerdded 4 milltir ychydig yn heriol, y cynllun yw cerdded heibio Eglwys Llantysilio a Neuadd Llantysilio gan ddychwelyd drwy Ben-y-bryn. Wedi cwblhau'r daith, cynhelir cinio bwffe yn y Britannia Inn (gyda chost fechan o thua £5.00).

Trefnwyd y daith er mwyn darparu cyfle i gasglu arian ar gyfer CAG ac elusen arall a ddewiswyd ei chefnogi gan bob tîm lleol. Roedd yn rhaid i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol dderbyn hysbysiad gan y rhai sy'n dymuno cymryd rhan erbyn Dydd Gwener 1 Mawrth. Mae'r manylion cyswllt ar y gwaith papur a anfonwyd yn flaenorol.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2013 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

#### **Cywirdeb -**

Cadarnhaodd Mrs. Elaine Wright ei bod wedi anfon e-bost yn ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod blaenorol, ond nad oeddent wedi'i dderbyn.

Nododd Dominic Oakes pan fu trafodaeth am gyngor yn adran AALI am ganlyniadau arholiadau, ei fod yn teimlo y dylid ychwanegu cafeat gan mai dim ond sampl bychan oedd wedi'u defnyddio fel esiamplau. Teimlai nad oedd hyn yn cael ei egluro yn y cofnodion.

Cafwyd diweddariad ar lafar gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ynglŷn â Dadansoddiad Adroddiadau Arolygiadau ar dudalen 7. Trafodwyd y mater bod Ysgol y Faenol yn llai effeithiol yn hyrwyddo dinasyddiaeth byd eang yn ystod Arolwg Estyn yn haf 2012. Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ei fod wedi cysylltu â'r ysgol a'u bod wedi cadarnhau bod dinasyddiaeth

byd eang yn eitem ar werthusiad eu hysgol a'u bod yn ei gynnwys drwy'r cwricwlwm cyfan.

Tudalen 9 - estynnwyd dyddiad cau cystadleuaeth Llythrennedd/Rhifedd mewn Addysg Grefyddol ar gyfer ysgolion hyd tymor y gwanwyn.

**PENDERFYNWYD – y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhalwyd ar 5 Hydref 2012 fel cofnod cywir.**

## 5      **GWASANAETHAU      EFFEITHIOLRWYDD      A      GWELLA      YSGOLION RHANBARTHOL (GEGYR)**

Cyflwynodd Elwyn Davies, Prif Swyddog Dros Dro Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (PS:GEGYR) adroddiad ar lafar yn amlinellu'r gwasanaeth oedd yn cael ei gynnig i ysgolion o 1 Ebrill 2013.

Gwasanaeth newydd yw GEGYR sy'n gweithio gydag ysgolion yn awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae PS:GEGYR ar secondiad o Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd. Dechreuwyd swydd dros dro ym Mehefin 2012 a bydd yn dod i ben yn Awst 2013. Bydd cyfweliadau ar gyfer Prif Swyddog parhaol yn cael eu cynnal yng nghanol mis Chwefror 2013. Ni chafwyd cadarnhad ble y bydd y Prif Swyddog newydd yn cael ei leoli.

Cytunodd chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i gydweithio fel consortiw. Roedd pedwar consortiw yng Nghymru i gyd.

Cadarnhaodd y PS:GEGYR y bydd angen addasu'r Strwythur Gweithredol yn y dyfodol.

Bydd angen cyflogi dau gyfieithydd. Bydd swyddi yn cael eu hysbysebu'n fuan ar gyfer un cyfieithydd llawn amser parhaol ac un cyfieithydd llawn amser dros dro.

Roedd tri lleoliad wedi'u cynllunio:-

- Lleoliad 1- Ynys Môn a Gwynedd - staff wedi'u lleoli yng Nghaernarfon gyda gweithfannau ar gael yn Llangefni.
- Lleoliad 2- Conwy a Sir Ddinbych- Staff wedi'u lleoli yn Ffordd Dinerth, Conwy gyda gweithfannau ar gael yn Rhuthun.
- Lleoliad 3- Sir y Fflint a Wrecsam – Staff wedi'u lleoli yn yr Wyddgrug gyda gweithfannau ar gael mewn ysgol yn Wrecsam er bo nifer o leoliadau ar gael ar gyfer gweithfannau eraill.

Ym mhob Lleoliad bydd un Uwch Arweinydd System a 2 Gymhorthyydd Gweinyddol, ac Arweinwyr System. Mae'r niferoedd o Arweinwyr System yn amrywio ym mhob lleoliad fel a ganlyn:-

Lleoliad 1- 10 x Arweinwyr System Llawn Amser

Lleoliad 2- 8 x Arweinwyr System Llawn Amser

Lleoliad 3- 9 x Arweinwyr System Llawn Amser

Bydd hyn yn creu cyfanswm o 30 o Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr System. MMae 21 o Arweinwyr System wedi'u penodi hyd yn hyn gyda chwech ychwanegol i'w penodi ddiweddu mis Chwefror. Roedd Phil Lord, Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol wedi'i benodi'n Arweinydd System a bydd yn cael ei leoli yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Rhan gyntaf y swydd fydd monitro, herio a chefnogi ysgolion. Bydd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol, yn ei swydd newydd, yn gweithio gyda 12 o ysgolion. Efallai y bydd gofyn i Arweinwyr System weithio gydag ysgolion tu hwnt i'w hardal yn achlysurol. Elfen arall fyddai cydlynú cefnogaeth cwricwlwm.

Roedd gofyniad o isafswm o 16 aelod o staff dwyieithog. Roedd y gofyniad hwn wedi'i gyflawni gyda'r staff oedd eisoes wedi'u penodi. Yn nhermau agwedd gyntaf y swydd, byddant yn dyrannu chwe diwrnod ar gyfer pob ysgol. Bydd tri chyfarfod ym mhob blwyddyn, yn yr hydref, y gwanwyn a'r haf. Bydd y chwe diwrnod yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau ayyb., a diweddar u wfan y gwasanaeth.

Bydd cyllideb comisiwn o £250,000 ar gael ar gyfer cefnogaeth ychwanegol i awdurdodau lleol ac ysgolion.

Bydd angen ffurфio Cydbwyllgor. Fe fydd gan Aelodau Portffolio Addysg y Cydbwyllgor hawl i bleidleisio. Yn cynnwys aelodau o'r Grwpiau Defnyddwyr fel a ganlyn:-

- (i) Chwe Pennaeth i gynrychioli ysgolion Cynradd, un o bob awdurdod lleol ac un o'r grŵp i'w henwebu i fod ar y Cydbwyllgor.
- (ii) Chwe Llywodraethwr, un o bob awdurdod lleol ac un o'r grŵp wedi'u henwebu i fod ar y Cydbwyllgor.

Roedd angen cytuno a gosod Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu yn cefnogi Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylai'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gwblhau'r gwaith gyda chost i'r awdurdod lleol.

Eglurwyd y bydd y gwasanaeth yn dechrau ar 1 Ebrill 2013. Yng nghynllun drafft Cytundeb Lefel Gwasanaeth, bydd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal i drafod y canlyniadau yn yr ysgolion ac i ystyried pa ysgolion sydd angen mwy o gefnogaeth.

**PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad llafar.**

## 6 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIADAU

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol Ddadansoddiad o Adroddiad Arolygiadau (wedi'i gylchredeg yn flaenorol).

Roedd dwy ysgol wedi derbyn Arolwg Estyn ym mis Hydref 2012, sef:

- Ysgol Uwchradd Catholig Bendigaid Edward Jones, y Rhyl
- Ysgol Clocaenog

Nododd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol bod yr adroddiadau yn bositif ar y cyfan. Yr unig argymhelliaid gan Arolygwr Estyn oedd y dylai Ysgol Uwchradd Catholig Bendigaid Edward Jones ddatblygu cydlyniad rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Mynegodd y Cynghorydd Margaret McCarroll ei phryder ei bod wedi cael gwybod bod y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth wedi ymddiswyddo o Ysgol Uwchradd Catholig Bendigaid Edward Jones. Roedd hyn yn newyddion siomedig iawn yn enwedig gan fod yr ysgol wedi bod yn gwneud cynnydd da iawn yn ddiweddar.

Nododd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol nad oedd unrhyw wybodaeth bellach am uno Ysgol Uwchradd Catholig Bendigaid Edward Jones, y Rhyl ac Ysgol Santes Ffraid, Dinbych.

Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y gall gysylltu ag ysgol Bendigaid Edward Jones yn ei swydd bresennol, i roi cymorth gyda datblygu cydlynu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ond yn unol â'i rôl newydd bydd angen cytundeb gan y Gwasanaeth Effeithiolwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol.

#### **PENDERFYNWYD -**

- *Y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*
- *Y dylid anfon llythyr i bob ysgol yn eu hysbysu bod Adroddiad yr Arolwg wedi'i hystyried, eu llonygfarch am y nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa am wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol mewn perthynas ag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu faterion allweddol sydd angen eu datrys.*
- *Y dylid gofyn i'r AALI ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol.*

## **7 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2012**

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol adroddiad Canlyniadau Arholiadau 2012 (wedi'i gylchredeg yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau TGAU a Lefel Uwch Addysg Grefyddol ar gyfer 2011 a 2012, ynghyd â dadansoddiad y gwahaniaethau a'r tueddiadau.

Diben yr adroddiad oedd er mwyn i'r aelodau ddefnyddio eu gweithredoedd mewn perthynas â dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ac i gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau'r flwyddyn honno.

Roedd y wybodaeth a gafwyd am y Cwrs Llawn yn bositif iawn. Roedd y Cwrs Byr yn cael ei ddefnyddio gan rai ysgolion er mwyn i'r disgylion gael cymhwyster.

Eglurwyd bod A\*-G yn cael eu cyfri fel graddau cymhwyster.

Mae Ysgolion a'r ALI yn defnyddio "Fischer Family Trust" er mwyn gallu dadansoddi'r data ymhellach ar draws yr ysgolion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio sefyllfa gymdeithasol pob dysgwr i ragweld canlyniadau eu harholiadau ar sail canlyniadau gan blant eraill mewn sefyllfa debyg. Nid yw'r data hwn ar gael ar gyfer CYSAG ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.

## 8 CADARNHAU ASESIAD ATHRAWON YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 3

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yr adroddiad (wedi'i gylchredeg yn flaenorol).

Diben yr adroddiad oedd ystyried dadansoddi'r canlyniadau o'r broses safoni.

Roedd CYSAG Cymru yn ymwybodol o'r canlyniadau ac wedi darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant Cymru gyfan. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar 27 Ionawr, yng Nghyffordd Llandudno. Cyflwynodd Gavin Craigen yr hyfforddiant. Roedd yr ysgolion yn cyflwyno portffolio ar gyfer bob lefel. Roedd y portffolios yn cael eu hanodi a'u hanfon at safonwyr. Os bydd unrhyw broblemau yn ymwneud â'r portffolios byddai'r safonwyr yn eu dychwelyd i'r ysgol. Roedd yr hyfforddiant wedi'i redeg yn dda a derbyniwyd adborth positif.

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.

## 9 TREFNIADAU MONITRO ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOLION YN DYFODOL

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol adroddiad (wedi'i gylchredeg yn flaenorol) i alluogi trafodaeth ynglŷn â threfniadau monitro Addysg Grefyddol mewn ysgolion yn y dyfodol mewn cysylltiad â GEGYR.

Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn gweithio ar gyfer cefnogaeth cwricwlwm ar hyn o bryd. Ni fyddai'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mwyach o dan system newydd GEGYR nac yn ei rôl newydd fel Arweinydd System. Bydd rôl Arweinydd System yn cadw cyfrifoldeb ar gyfer Addysg Grefyddol, ond bydd cynnydd yn y gost i'r awdurdod lleol ar gyfer cefnogaeth cwricwlwm. Roedd cyfrifoldebau CYSAG wedi'u gosod yn nhudalennau 2 a 3 o lawlyfr gwyrdd CYSAG. Bydd yr AALI yn adolygu'r maes llafur eleni.

Efallai y bydd cyswllt cyntaf gyda'r GEGYR, yn unol â'r trefniadau gwasanaeth newydd, yn cael eu hanfon ymlaen at ddogfen cwestiynau a ofynnir yn aml (FAQ). Onid yw'r ymholiad wedi'u cynnwys yn y cwestiynau a ofynnir yn aml yna gellir gwneud ymholiad e-bost neu dros y ffôn. Onid yw'r prosesau hyn yn llwyddo i

ddatrys y mater, yna gellir trefnu ymweliad. Dyluniwyd y broses er mwyn lleihau staff ac amser teithio.

Yn yr adroddiad roedd rhesymwaith holiadur ynghyd â holiadur i'r ysgolion ei gwblhau.

Eglurodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y byddai'r Arweinwyr System newydd yn cael gwybodaeth lawn am safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. Bydd staff sydd newydd gael eu penodi yn derbyn hyfforddiant llawn. Mewn perthynas â chefnogaeth, gellir cael Fforymau Addysg Grefyddol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a threfnu sesiwn galw draw unwaith neu ddwywaith bob tymor.

Bydd Marc Ansawdd Addysg Grefyddol yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Mynegwyd pryder na fydd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn ymweld ag ysgolion mwyach, ac o ganlyniad y bydd gwybodaeth yn cael ei golli. Bydd cynllun peilot yn cael ei weithredu gan gynnwys Marc Ansawdd Addysg Grefyddol.

Roedd yn rhaid i CYSAG ddarparu gweithrediad statudol. Bydd cyfarfodydd yn cael eu rhedeg fel ag y maent yn awr yn y dyfodol, yr unig wahaniaeth oedd y dull o dalu am y cyfarfodydd. Bydd adroddiad yr ysgol yn cael ei anfon fel arfer ond yn cael ei drafod mewn un cyfarfod. Bydd y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion yn cymryd mwy o ran yng ngohebiaeth y Pwyllgor.

Parhawyd â'r drafodaeth a mynegwyd pryeron am waith ychwanegol ar gyfer y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion gan y bydd hyn yn cael effaith enfawr. Mynegwyd pryder am y ffaith y bydd gwybodaeth arbenigol yn cael ei golli.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn derbyn ac yn cofnodi'r dull gorau o fonitro Addysg Grefyddol mewn ysgolion.

## 10 CYSAG CYMDEITHAS CYMRU

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gofnodion cyfarfodydd blaenorol CYSAG Cymdeithas Cymru a gynhaliwyd ar 26 Mehefin a 23 Tachwedd 2012 (copïau wedi'u hamgáu).

Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol bod adroddiad llafar wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod CYSAG diwethaf ar 5 Hydref 2012, yn dilyn cyfarfod CYSAG Cymdeithas Cymru 26 Mehefin.

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol bod Jonathan Martin wedi gwneud cyflwyniad dwyieithog yng nghyfarfod diwethaf CYSAG Cymdeithas Cymru am Goleg Merthyr Tudful sydd am fod yn goleg trydyddol o fis Medi 2013. Cadarnhaodd y byddai cwricwlwm newydd y coleg yn cynnig cymwysterau lefel A/AS mewn Addysg Grefyddol ac y bydd pob disgyl yn derbyn elfen Addysg

Grefyddol yn eu haddysg, drwy Addysg Grefyddol yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn tiwtorial. Cynigwyd yn y cyfarfod y dylai'r CYSAG lleol ystyried penodi aelod o Addysg Bellach.

Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ei fod wedi cysylltu â Choleg Addysg Bellach Sir Ddinbych a Chonwy (Coleg Llandrillo), gan ei fod yn dymuno gwahodd y Caplan i'r cyfarfod CYSAG nesaf er mwyn egluro beth yr allai gynnig i CYSAG a beth y gall CYSAG ei gynnig i'r coleg.

Mewn perthynas â llefydd gwag i Benaethiaid ar CYSAG, roedd enwebiadau yn cael eu rhoi gan gyfarfod Ffederasiwn Penaethiaid oedd yn cael ei gynnal Ddydd Llun 4 Chwefror 2013.

Mae cyfarfodydd CYSAG Cymdeithas Cymru yn cael eu cynnal tair gwaith y flwyddyn. Mae angen cynrychiolydd ychwanegol o CYSAG i fod ar CYSAG Cymdeithas Cymru. Y broses arferol yw bod y Cadeirydd, y Cyn-Gadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gynrychiolwyr, ond gan fod cryn dipyn o amser ers cael Cyn-Gadeirydd, roedd angen trydydd cynrychiolydd o'r grŵp. Cyfarfodydd CYSAG Cymdeithas Cymru sydd i ddod yw:-

- 22 Mawrth, i'w gynnal yng Nghasnewydd.
- 19 Mehefin, i'w gynnal yng Nghaernarfon.

Enwebwyd Dominic Oakes, ond eglurodd ei fod yn pryderu am golli incwm gan ei fod yn hunangflogedig. Ar wahân i hynny, roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn mynchyu cyfarfodydd CYSAG Cymdeithas Cymru.

Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y byddai'n gwneud ymholiadau am golled incwm.

**PENDERFYNWYD** y dylid cofnodi a derbyn cofnodion cyfarfodydd blaenorol CYSAG Cymdeithas Cymru a gynhalwyd ar 26 Mehefin 2012 a 23 Tachwedd.

## 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Mehefin 2013. Bydd y lleoliad yn cael ei gadarnhau yn dilyn cadarnhau'r cyfarfodydd sydd i'w cynnal rhwng Mai 2013 – Ebrill 2014.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm.**

**Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol  
(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:	01 Chwefror 2013	
Eitem ar y Rhaglen:	5	<b>DARPARIAETH YMCD YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH</b>
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
Derbyniodd CCYSAGauC gyflwyniad yn hydref 2012 ym Merthyr Tudful ar YMCD yn y sector Addysg Bellach.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
Derbyn cyflwyniad Toni Coulton ar ddarpariaeth YMCD yn y sector addysg bellach, a thrafod sut gall CYSAG gefnogi'r coleg 6ed dosbarth yn y Rhyl, Sir Ddinbych. Mae Toni wedi bod yn cefnogi'r gwaith cenedlaethol trwy Dare 2 Engage a Chyngor Cenedlaethol Ffydd a Chredoau mewn Addysg Bellach.		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"><li>Derbyn y cyflwyniad llafar</li><li>Trafod sut gall CYSAG gefnogi coleg chweched dosbarth a coleg addysg bellach y Rhyl.</li></ul>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol  
(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:	01 Chwefror 2013	
Eitem ar y Rhaglen:	6	<b>DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON</b>

Cefndir yr Adroddiad:

Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn adroddiadau arolygon Estyn ymhob cyfarfod.

Pwrpas yr Adroddiad:

Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn.

Argymhellion:

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llonyfarch am yr elfennau da a adnabuwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen ei ddatrys.
- Gofyn i'r AALI ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiadau CYSAG Sir Ddinbych

## Haf 2013 (adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor y gwanwyn)

Ysgol	Dyddiadau	Arolygwr Adrodd
Ysgol Gymraeg y Gwernant	Ionawr 2013	Merfyn Jones
Mae Ysgol Gymraeg y Gwernant yn rhannu safle gydag Ysgol Gynradd Bryn Collen yn nhref Llangollen, Sir Ddinbych. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o dref Llangollen a'r pentrefi cyfagos. Mae'r ardal yn cael ei disgrifio fel un eithaf ffyniannus ac nid yw'r disgyblion yn dod o gefndiroedd cymdeithasol sydd dan anfantais. Mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llai na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Cymru gyfan.		
Ysgol Bryn Hedydd	Tachwedd 2012	Barry Norris
Mae Ysgol Bryn Hedydd yn y Rhyl, Sir Ddinbych. Mae tua 470 o ddisgyblion ar y gofrestr, o 3 i 11 oed, gan gynnwys tua 60 sy'n mynychu'r feithrinfa'n rhan amser. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran sengl ar hyn o bryd. Nid yw ardal yr ysgol o dan fantais nac anfantais economaidd. Ond, 15% o ddisgyblion yr ysgol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llai na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.		
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	Tachwedd 2012	Iolo Dafydd
Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, wedi'i lleoli yn Llanelwy, Sir Ddinbych. Yn bennaf, mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer rhannau gogleddol Sir Ddinbych, ynghyd â rhannau o Sir y Fflint a Dwyrain Conwy. Mae'r disgyblion yn dod o ardaloedd dinesig yn bennaf, ac mae bron i 9% yn byw yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r ffigwr hwn gryn dipyn yn uwch na ffigyrâu ysgolion eraill tebyg. Mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn llai na'r ffigwr cenedlaethol.		
Ysgol Llywelyn	Rhagfyr 2012	David Ellis
Mae Ysgol Llywelyn yn ysgol gynradd fawr ar gyrraedd deheuol y Rhyl, wedi'i hadeiladu yn yr 1950au gyda chrynni dipyn o dir. Mae'r disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, gan amrywio o gefndiroedd eithaf ffyniannus i rai o dan anfantais economaidd. Dim ond am gyfnod byr y mae tua phumed o'r teuluoedd yn aros yn yr ardal. Mae tua 24% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chenedlaethol.		
Ysgol y Llys	Rhagfyr 2012	Goronwy Morris
Mae Ysgol y Llys yn ysgol cyfrwng Cymraeg, sy'n cael ei chynnal gan awdurdod addysg Sir Ddinbych. Mae wedi'i lleoli ym Mhrestatyn. Mae'r ysgol yn darparu addysg i'r dref a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o amrywiaeth gallu llawn. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (10.5%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych a Chymru. Mae pum deg pump (21%) o ddisgyblion yr ysgol ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigyrâu hyn yn agos at ganrannau'r sir a Chymru.		

## SYLWADAU POSITIF

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

#### Safonau:

- Yn yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi llwyddo i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig (canlyniad 5 neu well) yn natblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. (Gwernant)

#### Lles:

- Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u cymuned leol ac yn cyfrannu'n helaeth i wahanol elusennau. (Gwernant)

- Mae disgyblion yn datblygu sgiliau moesol, cymdeithasol a sgiliau bywyd da. (Bryn Hedydd)
- Mae'r gwaith elusennol helaeth yn enghraifft o'r modd y mae'r disgyblion yn dangos gofal at eraill. (Glan Clwyd)
- Mae'r disgyblion yn casglu arian ar gyfer amryw o elusennau ac yn rhan o nifer cynyddol o gysylltiadau a phrosiectau gyda'r gymuned leol. (Llywelyn)

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Profiadau dysgu:

- Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn cyfateb yn dda â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. (Gwernant)
- Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i gymharu eu profiadau bywyd gyda rhai plant o wahanol wledydd, a gyda hynny yn hyrwyddo eu parch a'u dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw. (Gwernant)
- Mae'r ysgol yn dda am hyrwyddo dinasyddiaeth byd-eang, er enghraifft gydag wythnos dinasyddiaeth byd-eang a chysylltiadau parhaus gyda gwledydd eraill drwy brosiect Comenius. (Bryn Hedydd)
- Un o gryfderau'r ysgol yw darpariaeth cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyfateb â'r gofynion statudol yn llawn ynghyd ag anghenion y disgyblion a'r gweithwyr cyflogedig. (Glan Clwyd)
- Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth addas o brofiadau er mwyn i'r disgyblion gael datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth byd-eang, a'u rôl hwy yn y gymdeithas. (Glan Clwyd)
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol drwy ymagwedd effeithiol yn seiliedig ar bwnc sy'n cyfateb â gofynion y Cyfnod Sylfaen a chwricwlwm statudol cyfnod allweddol 2 (Llywelyn).
- Maent yn datblygu ymwybyddiaeth addas o ddinasyddiaeth byd-eang, er enghraifft drwy gysylltiadau'r ysgol ag India a mentrau Masnach Deg. (Llywelyn)
- Rhoddir cyfleoedd da i'r disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth am rannau eraill y byd a diwylliannau eraill. Mae cysylltiadau amrywiol gydag ysgolion Ewropeaidd eraill drwy gynllun Comenius, ynghyd ag ymwelwyr rheolaidd o dramor, yn ddull effeithiol iawn o ehangu gorwelion disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o wahaniaethau rhwng diwylliannau ac arferion. (Y Llys)

### Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:

- Polisiau a threfniadau effeithiol ar waith a rhagleni megis addysg bersonol a chymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn y profiadau angenrheidiol. (Gwernant)
- Mae'r disgyblion yn cael eu hannog yn gyson i wahaniaethu rhwng cywir ac anghywir. Mae gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at wirionedd a chyflawnder yn treiddio drwy waith dydd i ddydd yr ysgol. (Gwernant)
- Mae addoli ar y cyd, amser cylch a chyfnodau yn ystod gwersi yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ystyried y neges sy'n cael ei chyflwyno. (Gwernant)
- Mae trefniadau i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn cael effaith bositif ar ganlyniadau'r disgyblion. (Bryn Hedydd)
- Mae'r ddarpariaeth eang o addysg bersonol a chymdeithasol yn hynod o effeithiol. (Glan Clwyd)

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgylion fel bo'n addas, ac mae datblygiad diwylliannol yn derbyn mwy o sylw. (Glan Clwyd)
- Mae dulliau ardderchog o gefnogi eu hiechyd a lles, er enghraifft gyda'u rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a grwpiau meithrin. Mae'r ddarpariaeth yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgylion. (Llywelyn)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgylion yn hynod o effeithiol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y parch y maent yn ei ddangos tuag at ei gilydd ac at oedolion. (Y Llys)

#### **Amgylchedd Dysgu:**

- Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gwneud cyfraniad sylweddol i hybu ymwybyddiaeth disgylion o'r angen i barchu pobl sy'n wahanol ac i ddatblygu meddwl agored sy'n meithrin gwerthoedd ac yn herio agwedd. (Glan Clwyd)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch at amrywiaeth ac yn cyfathrebu'r gwerthoedd hyn yn effeithiol. (Llywelyn)
- Mae parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hil yn cael ei hyrwyddo drwy amrywiaeth o waith yn astudio gwledydd tramor. (Y Llys)

## **SYLWADAU NEGYDDOL**

### **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

#### **Profiadau dysgu:**

- Nid yw'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi'i chydlynú'n dda iawn. (Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol  
(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:	01 Chwefror 2013	
Eitem ar y Rhaglen:	7	<b>CYSTADLEUAETH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD ADDYSG GREFYDDOL</b>
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
Mae ceisiadau'r gystadleuaeth Llythrennedd a Rhifedd a noddwyd gan CYSAG wedi eu derbyn a'u beirniadu ac mae'r ysgolion buddugol wedi derbyn eu gwobr ariannol.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u> Rhoi gwybod i CYSAG pwysw'r ysgolion buddugol a dangos rhai o'r ceisiadau llwyddiannus.		
<u>Argymhellion:</u> <ul style="list-style-type: none"><li>Derbyn yr adroddiad</li></ul>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol  
(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:	01 Chwefror 2013	
Eitem ar y Rhaglen:	8	<b>TAITH NODDEDIG CYNGOR CREFYDDOL CYMRU A LLOEGR</b>
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
Cynhaliwyd y daith noddedig ar 11 Mai yn Llangollen er budd Cyngor Crefyddol Cymru a Lloegr.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
Rhoi gwybod i CYSAG am y daith noddedig.		
<u>Argymhellion:</u>		
Derbyn yr adroddiad llafar.		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol  
(CYSAG)**

Dyddiad y cyfarfod:	01 Chwefror 2013	
Eitem ar y Rhaglen:	9	CCYSAGauC
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<b>Mae CYSAG yn dal ynaelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac yn derbyn adroddiadau cyfarfodydd gan yr aelodau sydd yn eu mynychu, ac yn derbyn cofnodion ac unrhyw adroddiad arall gan y Gymdeithas.</b>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
Rhoi gwybod i aelodau am ffocws a phrif ganlyniadau cyfarfodydd blaenorol.		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"><li>Derbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol.</li><li>Cytuno ar bwy fydd yn mynychu cyfarfod nesaf CCYSAGauC (Caernarfon, 19 Mehefin 2013) a thrafod enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol (copi yn amgaeedig).</li></ul>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Cyfarfod CCYSAGauC, Newport, 22 Mawrth  
2013 / Wales Association of SACREs meeting,  
Newport, 22 March 2013**

<b>Ynys Môn / Anglesey</b> Rheinallt Thomas Eurfrlyn Davies Bethan James	<b>Sir Ddinbych / Denbighshire</b> Phil Lord <b>Gavin Craigen</b>	<b>Rhondda Cynon Taf</b> Carys Pritchard
<b>Blaenau Gwent</b> Gill Vaisey	<b>Sir y Fflint / Flintshire</b> Phil Lord	<b>Abertawe / Swansea</b> Vicky Thomas
<b>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend</b> Edward Evans Carys Pritchard	<b>Gwynedd</b> W M Meredith Bethan James	<b>Torfaen</b> Vicky Thomas Margaret Oelmann
<b>Caerffili/ Caerphilly</b> Vicky Thomas Michael Gray Enfys Hawthorn Martyn Western	<b>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil</b> Carys Pritchard	<b>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan</b> Carys Pritchard Dafydd Treharne Ramez Delpak
<b>Caerdydd / Cardiff</b> Carys Pritchard	<b>Sir Fynwy / Monmouthshire</b> Gill Vaisey Susan Cave Sharon Perry-Phillips	<b>Wrecsam / Wrexham</b> Libby Jones Tania ap Siôn
<b>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire</b> Mary Parry Helen Gibbon Gwyneth Thomas	<b>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot</b> Janice Dudley?	<b>Sylwedyddion / Observers</b> Leslie Francis (Canolfan y Santes Fair / St Mary's Centre) Ben Wigley (REMW) Tudor Thomas (WJEC)
<b>Ceredigion</b>	<b>Casnewydd / Newport</b> Vicky Thomas Sally Northcott David Williams Huw Stephen Heather Vaughan Soam Sharma A Davidson Neata Baicher JP Val Delahaye Sally Mlewa	
<b>Conwy</b> Phil Lord Nicholas Richter	<b>Sir Benfro / Pembrokeshire</b>	
	<b>Powys</b> John Mitson	

## Minutes

### 1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome.*

Chair, Edward Evans introduced the Mayor of Newport, Cllr John Guy who then welcomed everyone to the meeting in Newport. He described Newport as a city with a wealth of diversity and went on to say that Newport SACRE has many different faiths represented. He noted that WASACRE has been supportive of Community Cohesion initiatives and helps to ensure that RE is taught well in all schools, including Collective Worship. In 2011 Newport organised a series of events for the National RE festival. Many schools took part and that work is on going. WASACRE is important because it provides the forum and the voice for RE across wales. The Mayor concluded his address by offering well wishes for the meeting.

This was followed by a presentation by the Gwent Education Minority-ethnic Service who provides support for children who are Black Minority Ethnic in the Newport area. There are 94 different languages spoken in the Newport area including dialects, for which the team develop language and tuition support. They also work with Show Racism the Red Card and the Holocaust Memorial Day Trust. The service has organised a variety of activities for their ‘See the World through Ours Eyes’ project focussing on different countries including China and India. They informed members of the GEMS Faith Trail (leaflet shared in the meeting) and GRT History month for which there will be a celebration in Cardiff this year on June 5<sup>th</sup>. Their website address was shared

[www.newportlearn.net/inclusion/](http://www.newportlearn.net/inclusion/) and members were invited to login as ‘guest’ to find out more information about any of the services GEMS provide.

### 2. Adfyfrio tawel / *Quiet reflection*

